**CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 10fed Mawrth 2014**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 10th Mawrth 2014**

**Yn Bresennol/Present**: Cyng/Cllrs Tom Cowcher Mr Douglas Davies Mrs Philippa Davies Keith Evans Wyn Evans Andrew Howell Aled Jones Terry Griffiths Mrs Carolyn Reed-Rees and County Councillor Peter Davies

1 **Ymweliad/Visit** –

Estynnwyd croeso cynnes i Gynghorydd John Adams Lewis, a oedd wedi ymweld â holl Gynghorau Cymuned Ceredigion yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr Heddlu lleol yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn adrodd am yr achos o lofruddiaeth a ddigwyddodd yn Llandysul yn ddiweddar ac er mwyn tawelu meddyliau'r preswylwyr. Anogwyd unrhyw un y mae ganddynt unrhyw gwestiynau neu ofnau i siarad gyda nhw. Adroddwyd bod Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Siân Davies wedi gwneud gwaith diflino er mwyn lleddfu ofnau pobl. Yn ogystal, gwnaethant ddiolch i'r Gymuned am ei chymorth, gan ymddiheuro am hyd y cyfnod y bu'n rhaid i'r stryd fawr fod ar gau, ond gan nodi y bu hwn yn gam yr oedd angen ei gymryd.
Roedd yr holl agweddau eraill ar droseddu yn yr Ardal yn dawel ac ni adroddwyd unrhyw broblemau pellach.
Diolchodd y Cynghorwyr Cymuned iddynt am fynychu ac am eu holl waith caled.

A warm welcome was given to Councillor John Adams Lewis who had visited all Ceredigion Community Councils within the year.

The local Police was present at the meeting to report on the recent murder in Llandysul and to offer reassurance to residents. Anyone with any questions or fears were urged to go to speak to them. It was reported that PCSO Sian Davies had worked tirelessly to allay people’s fears . They also thanked the Community for their support and apologised for the length of the road closure of the high street but it was necessary.
All other aspect of crime in the Area was quiet and no further problems were reported.
The Communtity Councillors thanked them for attending and for all their hard work.

2 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies was received from Cyng/Cllrs Beth Davies a Chynghorwyr Sir / and County Councillors Peter Davies a Peter Evans. Penderfynwyd y dylai'r clerc geisio eglurhad ynghylch y rheol sy'n ymwneud â phresenoldeb cynghorwyr mewn cyfarfodydd. / It was decided that the clerk seek clarification as to the ruling of councillors attendance at meetings.

3 **Personol/Personnal** Estynnwyd croeso cynnes i Gynghorydd Wyn Evans, a oedd wedi dychwelyd yn dilyn cyfnod o salwch. / A warm welcome was given to Councillor Wyn Evans who was back at the meeting following a period of illness.

**Ymddiswyddiad/Resignation** Cafwyd llythyr ymddiswyddiad gan Gynghorydd Breian Teifi. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu llythyr ato yn diolch iddo am ei holl waith caled a'i ymroddiad tuag at y Cyngor Cymuned. / A letter of resignation was received from Councillor

Breian Teifi.  It was decided that the clerk write a letter to thank him for all his hard work and dedication to the Community Council.

4 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:**  Ni ddatgelwyd unrhyw Fuddiannau.  /  There were no declerations of Interest.

5 **Cofnodion/Minutes:**  Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2014 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.  / Minutes of monthly meeting held on 10 February 2014 were accepted as correct and signed by the Chair.

6 **Materion yn Codi:- Hyfforddiant Cynllunio**– Trefnwyd Hyfforddiant Cynllunio a gynhelir ar 28 Ebrill am 6.00 yn y Ganolfan Ieuenctid.
**Rheoli Cŵn** – Hysbyswyd yr aelodau gan Gyng Aled Jones bod arwyddion yn cael eu gosod yn y parc ar hyn o byd. Hysbyswyd y pwyllgor gan Gynghorydd John Adams Lewis bod yr is-ddeddfau gan y Cyngor Sir yn cael eu cytuno ar hyn o bryd, ac y byddai Cynghorau Cymuned yn cael eu cynnwys mewn ymgynghoriad.
**Cyfarfod ym Mhenmorfa** – Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu a gofyn am gopi o'r cofnodion swyddogol ar gyfer y cyfarfod.
7 **Rhoddion:-**
*(i)* RABI– rhodd o £100 er mwyn cynorthwyo teuluoedd amaethyddol yng Ngheredigion.
Tanysgrifiad Croeso i Gerddwyr - Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn talu'r Tanysgrifiad Blynyddol o £30.
Pwll Nofio Llandysul - gofynnwyd am £10000 tuag at y costau o redeg y pwll nofio. Penderfynwyd ystyried y cais yn y flwyddyn ariannol newydd ar ôl cael mwy o eglurhad ynghylch y cyllid a fyddai'n cael ei roi gan y Cyngor Sir.
Cyngor ar Bopeth – Penderfynwyd rhoi £200 i'r ganolfan.
Yr Hen Gapel Llwynrhydowen – Adroddwyd bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cymeradwyo grant o £84,100 tuag at y gwaith o adnewyddu'r Hen Gapel. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu i ofyn pryd y byddai angen i'r Cyngor Cymuned ryddhau'r cyllid o £10000 yr oeddent wedi cytuno ei roi yn flaenorol.
Llyfrau Llafar Cymru Penderfynwyd y byddai'r clerc yn sicrhau rhagor o wybodaeth ynghylch llyfrau llafar cymru er mwyn darganfod a oes gan Geredigion ei changen ei hun.

8 **Gohebiaeth**
Negeseuon e-bost – Gweler ynghlwm restr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 10 Chwefror a 10 Mawrth.

1) Cafwyd y canlynol gan **Ceredigion:-** Cafwyd y Cynlluniau Datblygu Lleol.
**Cynnal y Cardi** – Cynhelir Digwyddiad Dathlu yn Llanerchaeron ar 10 Mai 2014.
**Cyfarfod Ymgynghorol 2014** Hysbysiad o'r cyfarfod a gynhelir ar 16 Ebrill 2014 yn Neuadd Llandysul am 7.00pm.
**Ray Ceredigion** Cafwyd llythyr ynghylch perchnogaeth y Caeau Chwarae. Penderfynwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor i'w hysbysu o'r ffaith nad yw Cyngor Cymuned Llandysul yn berchen ar unrhyw safleoedd chwarae.
2) **Western Power Distribution** - Cafwyd llythyr ynghylch y cyflenwad ar gyfer y Goleuadau Nadolig yn Llandysul. Penderfynwyd anfon y llythyr ymlaen at Gynghorydd Breian Teifi gan ei fod ef wedi delio gyda nhw dros y Nadolig.
3) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** – Llythyr yn hysbysu bod yr Adroddiad Blynyddol wedi cael ei gyhoeddi http://wales.gov.uk/irpwsub/home/publication/201415/140212-irp-annual-report-1415/?lang=en
4) **SLCC a Clerks and Councils Direct** – Cafwyd y cylchgronau misol.
5) Cafwyd Adolygiad Blynyddol 12-13 **Cyngor ar Bopeth Ceredigion**.
5) **Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau**– Cafwyd llythyr gwybodaeth a phenderfynwyd eu gwahodd i fynychu cyfarfod yn y flwyddyn ariannol newydd er mwyn trafod a hysbysu'r Cyngor Cymuned o'u gwaith.
6) **Yswiriant Zurich** – Cafwyd manylion am gostau'r premiwm blynyddol. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd talu mwy am y gwasanaeth am un flwyddyn yn hytrach nag ymrwymo i bremiwm cyfradd sefydlog am dair neu bum mlynedd.
7) **HMRC** – Cafwyd llythyr ynghylch gweithdrefnau diwedd Blwyddyn ac fe'i drosglwyddwyd i Carloyn Reed Rees.
8) **Llywodraeth Cymru** – Cafwyd Dogfen Ymgynghori gan Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd cynnwys y mater ar yr agenda nesaf er mwyn ei drafod.

) **Anfonebau:-**
*(i)* Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £93.55 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Chwefror a derbyniwyd y dylid ysgrifennu siec i'w thalu.
(ii) Abacus Derbyniwyd y dylid talu £243.25 am lanhau'r llochesau bws.
(iii) Derwen Lighting Cafwyd anfonebau gan Derwen Lighting am y Goleuadau Nadolig yn Llandysul a hefyd, am yr alwad frys i ddod allan yn ystod y storm, pan oedd y goleuadau wedi cwympo y tu allan i Siop y Gomerian.
(iv) Ron Foulkes Derbyniwyd y dylid ysgrifennu siec o £75 er mwyn talu'r ffioedd archwilio
9. **Gwefan** – Atgoffwyd yr holl aelodau o'r ffaith bod angen iddynt ddarparu gwybodaeth am eu pentrefi o hyd er mwyn diweddaru'r wefan.

10. **Ciosgau Coch** – Ni chafwyd unrhyw wybodaeth bellach.

11. **Safleoedd Bws** – Cafwyd adroddiad gan Wasanaethau Glanhau Abacus ynghylch cyflwr yr holl lochesau bws. Yn ogystal, adroddwyd nad oedd y safle bws ym Mwlch-y-groes yn cael ei lanhau. Roedd y Clerc wedi cael gwybodaeth gan y Cyngor Sir bod y cyngor hwn yn rhannu perchnogaeth y lloches bws hwn gyda Chyngor Cymuned Troed-yr-aur. Penderfynwyd gofyn i'r clerc ychwanegu'r safle bws hwn i restr Cyngor Cymuned Llandysul, a gofyn i Wasanaethau Glanhau Abacus i'w lanhau. Penderfynwyd ysgrifennu eto at y Cyngor Sir ynghylch y safle bws yn Horeb er mwyn cael gwybod pwy sy'n gyfrifol am ei lanhau.

12. **Llwybrau troed** Dim diweddariadau pellach.

13. **Pwll Nofio a Chaeau Chwarae Llandysul ac Awel Deg**
Darllenodd Cynghorydd Tom Cowcher y nodiadau a wnaeth yn ystod y cyfarfod gyda Swyddogion y Cyngor Sir. Penderfynwyd aros i gael gwybod y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd, ac i weld beth fyddai'r sefyllfa o ran diogelwch y Pwll Nofio ar gyfer y dyfodol.
Darllenwyd llythyr gan Gynghorydd Sir Peter Evans ynghylch Cartref Preswyl Awel Deg. Adroddwyd yn y llythyr y byddai Awel Deg yn ailagor ymhen tua chwe mis fel uned ar gyfer y rhai y mae ganddynt ddementia yn unig.
13 **Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 12.03.2014.

Archwiliwyd y cynlluniau canlynol ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-
Adeiladu pedwar annedd newydd A140078 – Tir gerllaw Penparc, Horeb
Adeiladu sied amaethyddol newydd er mwyn cadw stoc A140085 – Moelgarnog, Rhydowen, Llandysul
Archwiliwyd y cynlluniau canlynol ac fe'u gwrthodwyd
Gosod tyrbin gwynt 100KW A130953 – Cwmgyfeile, Tre-groes

**Caniatâd Cynllunio**
Penrhiw, Capel Dewi A130861 - Newid swyddfa fferm yn dŷ llety annibynnol
**Gwrthod Ceisiadau Cynllunio Apêl Adran 78**
Frondeifi, Llanfihangel-ar-arth, A130084 – Gwaredu amod amaethyddol 6 cais cynllunio D532, y rhoddir sylw iddo mewn Gwrandawiad anffurfiol a gynhelir am 10am ar 11/03/14

6 **Matters Arising:- Planning Training**– Planning Training had been arranged for 28th April at 6.00 at the Youth Centre,
**Control of Dogs** – Cllr Aled Jones informed the members that signs were in the process of being put up in the park. Councillor John Adams Lewis informed the committee that the bylaws form the County Council were in the process of being agreed and that the Community Councils would be consulted.
**Meeting at Penmorfa** – It was decided that the clerk write to ask for a copy of the official minutes of the meeting.
7 **Donations:-**
*(i)* RABI– £100 donation to support agricultural families in Ceredigion.
Walkers are Welcome subscription - It was decided that the Community Council pay the £30 Annual Subsctiption.
Llandysul Swimming Pool - £10000 was requested for running costs of the swimming pool. It was decided to look at the request in the new financial year following more clarification on what funding would be given by the County Coucil.
Citizens Advice – It was decided to donate £200 towards the bureau.
Yr Hen Gapel Llwynrhydowen – It was reported that the Heritage Lottery Fund had approved a grant of £84,100 towards the renovation
of the Hen Gapel. It was decided the clerk write to ask when they needed the Community Council to release the £10000 funding that they had previously agreed.
Talking Books Wales It was decided that the clerk obtain more information regarding the talking books wales to see if Ceredigion has their own branch.

8 **Correspondence**
Emails – Find attached a list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 10th February until the 10th March.

1) The following were received from **Ceredigion:-** The Local Development Plans were receiced.
**Cynnal y Cardi** – Celebration Event to be held at Llanerchaeron on 10 May 2014.
**Consultative Meeting 2014** Notice of meeting to be held on 16 April 2014 at Llandysul Hall at 7.00pm.
**Ray Ceredigion** A letter was received reagriding the ownership of Playing Fields. It was decided the Clerk write to the Council to inform them that Llandysul Community Council didn't own any.
2) **Western Power Distribution** - A letter was received regarding supply to the Christmas Lights at Llandysul. It was decided to forward the letter to Councillor Breian Teifi as he had dealt with them at Christmas.
3) **Independent Remuneration Panel for Wales** – A letter informing that the Annual Report had been published http://wales.gov.uk/irpwsub/home/publication/201415/140212-irp-annual-report-1415/?lang=en
4) **SLCC and Clerks and Coauncils Direct** – Monthly magazines were received.
5) **Ceredigion Citizens Advice** Annual Review 12-13 was received.
5) **Teenage Cancer Trust**– An information letter was received and it was decided to invite them to attend a meeting in the new financial year to discuss and inform the Community Council of their work.
6) **Zurich Insurance** – The annual premium costs were received. Following a discussion it was decided to pay for a one year costs rather than a three of five fixed rate premium.
7) **HMRC** – A letter was received regarding end of Year procedures and passed on to Carloyn Reed Rees.
8) **Welsh Government** – Consultation Document were received from the Welsh Government. It was decided to put the matter on the next agenda for discussion.

) **Invoices:-**
*(i)* Llinos Jones – Invoice for February translation was received in the sum of £93.55 and cheque was passed for payment.
(ii) Abacus £243.25 was passed for payment for bush shelter cleaning.
(iii) Derwen Lighting Invoices were received from Derwen Lighting for the Christmas Lights in Llandysul and also for the emergency call out during the storm where the lights fell outside Siop y Gomerian.
(iv) Ron Foulkes A cheque was passed for payment for £75 for audit fees
9. **Website** – All members were reminded that information about their villages was still needed in order to update the website.

10. **Red Kiosks** – No further information was received.

11. **Bus Stops** – A report was received from Abacus Cleaning Services regarding the condition of all of the bus shelters. It was also reported that the bus stop in Bwlchygroes was not being cleaned. The Clerk had obtained information from the County Council that this bus shelter was co-owned with Troedyraur Community Council. It was decided to ask the clerk to add this bus stop to Llandysul Community Coucils list and ask Abacus Cleaning Services to clean it. It was decided to write again to the County Council regarding the bus stop at Horeb to see who is responsible for cleaning it.

12. **Footpaths** No further updates.

13. **Llandysul Swimming Pool and Playing Fields and Awel Deg**
Councillor Tom Cowcher read out the notes that he had taken in the meeting with County Council Officials. It was decided to wait and see what the plans for the new school would be and see what the security for the future of the Swimming Pool would hold.
A letter was read out from County Councillor Peter Evans regarding Awel Deg Residential Home. It was reported in the letter that Awel Deg would re-open in about six months as a dementia unit only.
13 **Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 12.03.2014 was received.

The following plans were inspected, there were no objections:-
Erection of four new dwellings A140078 – Land adjacent to Penparc, Horeb
Erection of an agricultural shed for housing stock A140085 – Moelgarnog, Rhydowen, Llandysul
The following plans were inspected, and refused
Installation of 100KW wind turbine A130953 – Cwmgyfeile, Tregroes

**Planning Permission**
Penrhiw, Capel Dewi A130861 - Change of farm office into self contained guest house
**Refusal of Planning Applications Section 78 Appeal**
Frondeifi, Llanfihangel ar Arth, A130084 – Removal of agricultural condition 6 of planning application D532to be dealt by informal Hearing 10am 11/03/14